Y Rhosyn

Gweld cyfle

Oes gennych chi hoff flodyn? Dyna i chi gwestiwn anodd gan fod yna gymaint o flodau prydferth o gwmpas. Mae'n nhw'n dweud mai brenin y blodau ydi'r rhosyn. Er bod gan y rhosyn flodyn hardd eto i gyd mae ganddo ganghennau pigog. Dyma stori am y pren rhosyn.

Pan oedd Iesu ar fin cael ei groeshoelio, gwelodd un o'r milwyr Rhufeinig rosyn hardd yn dringo dros y mur yn Jerwsalem. Roedd wedi sylwi ar y rhosyn hwn droeon pan oedd yn cadw gwyliadwriaeth yn y ddinas.

Byddai'n dweud wrtho'i hun yn aml. "Mi fuaswn i'n hoffi mynd â rhosyn i'm gwraig draw yn yr Eidal. Efallai y cai gyfle ryw ddydd."

Un bore Gwener roedd y milwyr yn arwain Iesu a dau arall i fryn Golgotha. Awgrymodd un o'r milwyr eraill eu bod yn rhoi coron o ddrain ar ben yr Iesu. Cofiodd y milwr am y rhosyn oedd yn tyfu ar fur y ddinas. Torrodd gangen yn llawn o ddrain pigog. Defnyddiodd arf i'w blethu'n gywrain a gwneud coron o'r drain pigog. Rhoddwyd gwisg o borffor am Iesu a'r goron ddrain ar ei ben.

Pan ddaeth Iesu allan i wynebu'r dyrfa wedi'i wisgo fel brenin dywedodd Peilat "Wele eich brenin."

Cododd y bobl ei golygon i edrych arno. Y munud hwnnw ymddangosodd tri rhosyn ynghanol y goron ddrain. Roedd y tri'n disgleirio'n llachar yng ngolau'r haul. Roedden nhw'n edrych yn union fel gemau, gemau mewn coron frenhinol. Ar ôl i Iesu farw ar y groes a'i gladdu ym medd Joseff o Arimathea taflodd un o'r milwyr y goron ddrain i fan cysgodol yn yr ardd.

Ar y bore Sul pan ddaeth Mair Magdalen at y bedd welodd hi mo'r goron ddrain. Pan ddaeth Pedr ac Ioan at y bedd yn ddiweddarach wnaethon nhw ddim gweld y goron ddrain chwaith.

Aeth amser heibio. Pan oedd Joseff o Arimathea'n crwydro yn yr ardd un bore gwelodd rosyn newydd yn tyfu mewn cornel dawel. Doedd o erioed wedi gweld y rhosyn hwn o'r blaen. Roedd yn rosyn prydferth iawn ac arogl bendigedig arno. Ond roedd ei ganghennau'n llawn o ddrain pigog. Bob dydd byddai Joseff yn mynd yn syth at y rhosyn i'w arogli. Gwelodd un gangen syth â thro naturiol ar un pen iddi. Torrodd y gangen, a llyfnhau'r drain pigog oedd arni. "Bydd hon yn ffon dda i mi pan fydda i wedi mynd yn hen ŵr" meddai wrtho'i hun. Teithiodd Joseff o Arimathea drwy rannau helaeth o'r byd yn sôn am Iesu Grist. Yn ôl pob stori, bu yma ym Mhrydain. Bu'r ffon yn gymorth mawr iddo yn ei waith dros Iesu.

O Dduw, diolch i Ti am Iesu Grist.
Diolch i Ti am ei fywyd ac am ei ddysgeidiaeth.

- Sut blanhigyn ydi'r rhosyn?
- Beth fyddech chi'n ddweud ydi neges y stori hon?